YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

17 Tachwedd 2023

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Noson Wybodaeth am Ddiogelwch Ar-lein:** Diolch i'r holl rieni / gwarchodwyr a fynychodd ein noson wybodaeth diogelwch ar-lein. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddysgu ein plant sut i fod yn ddiogel ar-lein. Dyma ddolen i adnodd sy'n esbonio camau i rieni: Diogelwch Ar-Lein - Hwb a chyswllt defnyddiol i adnodd sy'n esbonio'r apiau amrywiol y mae plant yn eu ddefnyddio: Canllawiau Apiau i deuluoedd - Hwb




***Noson yn y Rasys – Cyfeillion Glantaf nos Wener 24 Tachwedd am 7pm:*** Ymunwch â ni ar gyfer ein digwyddiad codi arian Cyfeillion Glantaf yng Nghlwb Tenis yr Eglwys Newydd. Mae tocynnau ar gael ar ParentPay, am bris @ £10 ac edrychwn ymlaen at noson arbennig i gwrdd ag aelodau newydd a phawb er mwyn cefnogi'r ysgol.

**Un Bore Mawrth: Cynhyrchiad drama Glantaf, 28-30 Tachwedd:** Archebwch nawr i sicrhau eich seddi yng nghynhyrchiad Drama eleni, "Un Bore Mawrth". Mae'r ddrama TGAU hon, a addaswyd gan y cyn-ddisgybl a'r dramodydd enwog, Daf James, yn seiliedig ar 'ddydd Mawrth cyffredin', sy'n troi'n rhyfedd iawn, iawn pan mae'r awyr dros faes chwarae'r ysgol yn rhwygo ar agor yn sydyn! Edrychwn ymlaen at ddanteithion theatrig, ac yn dymuno'r gorau i'n holl actorion addawol yn eu hymarferion.

**Imiwneiddio chwistrell trwynol ffliw – 7&8 Rhagfyr: Bl 7-11:** Dyma'r ddolen i lythyr rhieni - Llythyr - Frechlin Ffliw.docx. Mae'n hanfodol eich bod yn llenwi'r ffurflen gofrestru sy'n cael ei hesbonio yn y llythyr. Os nad yw cofrestru wedi'i gwblhau ni fydd eich plentyn yn gallu cael y brechlyn ffliw.

**Digwyddiadau i ddod:**

| | |
|---|---|
| **20/11/23** | **HMS – ysgol ar gau i ddisgyblion** |
| 23/11/23 | Noson Rhieni Bl13 (Glantaf) 3.30-6pm |
| 24/11/23 | Noson yn y Rasys – Cyfeillion Glantaf yng Nghlwb Tenis yr Eglwys Newydd @ 7pm |
| 28-30/11 | Cynhyrchiad drama "Un Bore Mawrth" yng Nglantaf – tocynnau ar gael ar ParentPay! |

**Llongyfarchiadau i gynrychiolwyr Senedd yr Ysgol:** dymuniadau da i senedd newydd Glantaf ar gyfer eleni:

BL7 – Harri Rees and Lorelai Mantle
BL 8 – Leo Pill and Harry Watt
BL 9 – Harri Jones and Amos Goncalves
BL 10 – Antonio Corrado, Enlli Catalina a Gruff Harrison
BL 11 – Nia Ronchetti, Harri Martin and Momoko Lee


**Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr (Holiadur SHRN):** Bydd pob disgybl yn cwblhau'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Dyma'r ddolen i lythyr sy'n esbonio pwrpas yr holiadur i rieni: Llythyr - Letter .docx . Os nad ydych am i'ch plentyn fod yn rhan o'r arolwg am unrhyw reswm, cysylltwch â (newisr@hwbcymru.net).

**Prosiect Cerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru:** Llongyfarchiadau i'r deugain o ddisgyblion Glantaf a fu'n rhan o'r prosiect ac a berfformiodd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yr wythnos hon.



*6ed Dosbarth yn cyflwyno siec i elusen - 2 Wish*

**Hamperi Nadolig:** Unwaith eto eleni, byddwn yn lansio ein apêl ar gyfer teuluoedd sy'n ei chael yn anodd ar yr adeg yma o'r flwyddyn, gyda ein apêl casglu bwyd ar gyfer hamperi: [Hamperi Bwyd.pdf]



*Cyflwyniad PC Mirain Davies*

**Swyddog Cyswllt PC (PC Mirain Davies):** Diolch i PC Mirain Davies am ymweld â'r ysgol a chyflwyno ar Ddiogelwch Ar-lein i'n disgyblion Bl 7. Mae PC Mirain Davies hefyd wedi cyflwyno gwybodaeth iechyd a lles i'n disgyblion Bl 8, 9 a 10 yn ystod yr hanner tymor cyntaf.

**Hoffem eich atgoffa o bwysigrwydd presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol.** Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol i ddatblygiad academaidd a chymdeithasol ein dysgwyr. Gofynnwn yn garedig felly i chi annog eich plentyn i ddod i'r ysgol bob dydd. Cofiwch :

- Canran presenoldeb 95%-100% sy'n rhoi'r cyfle gorau i lwyddo.
- Mewn blwyddyn, mae 85-90% presenoldeb yn golygu bod eich plentyn yn colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu y flwyddyn a all olygu tangyflawni a'r angen i gael cymorth ychwanegol.
- Mae o dan 80% yn golygu bod eich plentyn yn colli o leiaf 7 wythnos a hanner o ddysgu sydd yn amlwg yn cael effaith sylweddol ar y dysgu.

**Blwyddyn 11, 12 a 13 – Ffug Arholiadau:** Mae'r disgyblion wedi derbyn amserlen arholiadau yr wythnos hon.
Blwyddyn 11 – Dechrau ar 13/12/23 a Gorffen ar 19/12/23.
Blwyddyn 12 – Dechrau ar 11/12/23 a Gorffen ar 18/12/23.
Blwyddyn 13 – Dechrau ar 8/12/23 a Gorffen ar 19/12/23.



*Cyfarfod Fforwm Busnes*

**Cyfarfod Fforwm Busnes:** Diolch i'n holl bartneriaid am fynychu a chyfrannu at gynllunio gweithgareddau amrywiol drwy gydol y flwyddyn a fydd yn cyfoethogi cyfleoedd dysgu ein disgyblion. (Cardiff Commitment, Willmott Dixon, Stable, Pepper Money, Cardiff and Vale Health Board, Companies House, ISG Construction, Rio Architects, Kier Construction, Maggie's and Careers Wales)



*Gyrfa Cymru – Gweithdy Sgiliau Cyfweliad*

**Gyrfa Cymru – Gweithdy Sgiliau Cyfweliad:** Diolch i Gyrfa Cymru am eu cefnogaeth i helpu i baratoi ein disgyblion Blwyddyn 11 ar gyfer y byd gwaith. Dyma'r ail ymweliad wrth baratoi ar gyfer Ffug Gyfweliadau Blwyddyn 11 ar ddechrau mis Rhagfyr. Diolch i un o'n Partneriaid Fforwm Busnes – Willmott Dixon am gyfrannu at y gweithdy.

**Llwyddiannau Gwyl Cerdd Dant Caerdydd 2023 Sadwrn diwethaf:** Gwych gweld disgyblion Glantaf yn ymddangos yn yr Wyl Gerdd Dant gyda perfformiadau nodedig gan:

- 3ydd Parti Cerdd Dant Glantaf
- 3ydd Côr Gwerin Glantaf
- 3ydd Grwp Cerdd Dant - Grwp Ela (gyda Phlasmawr)
- 3ydd Ensemble Telyn - Ben a Faith Manville-Parry



*Y Parti Gwerin*



*Cor Cerdd Dant BroPlasTaf*

**Uned Adnoddau Arbenigol - Gardd:** Diolch i ISG Construction un o'n Partneriaid Fforwm Busnes am ddod mewn a helpu i wella'r ardd yn ein Uned Adnoddau Arbenigol.

I gloi, braf coesawu elusen 2Wish i'r ysgol i dderbyn cyfraniad nodedig y Chweched dosbarth o £4045.35 yn dilyn eu taith gerdded i'r elusen bwysig hon. Fel bob amser os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r ysgol a dilynwch ein cyfrif X @Ysgol_Glantaf

Yn gywir

Mr Denis Pugh
Pennaeth Cynorthwyol
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf





*Staff ISG a disgyblion Canolfan Glantaf yn gweithio'n galed!*